



GWYBODAETH I GLEIFION

A fydd y GIG yn ariannu fy nhriniaeth?

Sut y mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda
yn ystyried Ceisiadau Cyllido
Cleifion Unigol

Cyhoeddwyd y daflen hon gan Fwrdd Iechyd
Hywel Dda mis Awst 2011

A fydd y GIG yn ariannu fy nhriniaeth?

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn i dalu am ofal iechyd pawb sy'n byw yn Sir Benfro, Ceredigion a Chaerfyrddin ac sy'n gymwys am ofal y GIG. Ein gwaith ni yw sicrhau'r gwerth gorau am yr arian hwn trwy ei wario'n ddoeth ar eich rhan.

Mae'r galw am ofal iechyd yn cynyddu. Mae triniaethau newydd ar gael bron bob wythnos ac mae'r rhain yn aml yn ddud. Fodd bynnag, swm penodedig yn unig sydd gennym i'w wario felly rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd iawn ar adegau.

Ein blaenoriaeth yw talu am driniaethau sy'n effeithiol yn glinigol, yn dangos eu bod yn gwella iechyd pobl ac yn cynnig gwerth da am arian.

O ganlyniad, mae yna rai triniaethau nad ydym yn eu darparu fel mater o arfer ac mae'r rhain wedi'u dosbarthu i 2 brif gategori, sef:

- triniaethau newydd, anghyfarwydd, datblygol neu heb eu profi, nad ydynt ar gael fel arfer i gleifion Hywel Dda (er enghraifft, meddyginiaeth heb ei chymeradwyo i'w defnyddio gan GIG Cymru)
- triniaethau'r ydym yn eu darparu o dan amgylchiadau clinigol penodol iawn, ac nid yw pob claf sy'n dioddef o'r cyflwr yn bodloni'r meini prawf hyn (er enghraifft

cais am driniaeth ar gyfer gwythiennau faricos).

Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gall eich meddyg teulu neu'ch Ymgynghorydd Ysbyty ofyn i ni ar eich rhan i ariannu triniaeth na fyddwn fel arfer yn ei darparu.

Enw'r broses hon yw cyflwyno **Cais Cyllido Cleifion Unigol neu 'IPFR'** ac mae GIG Cymru'n dilyn polisi clir ar sut i ymdrin â'r ceisiadau hyn. Gallwch ei lawr lwytho o www.bihyweldda.wales.nhs.uk

Cyflwyno IPFR

Os hoffech wneud cais am driniaeth na fyddwn fel arfer yn ei darparu, trafodwch hyn â'ch meddyg teulu neu'ch Ymgynghorydd Ysbyty. Byddant fel arfer yn llenwi ffurflen gais ar eich rhan a'i chyflwyno i ni, ynghyd ag unrhyw wybodaeth gefnogol.

Wrth wneud y cais hwn, bydd angen i'ch meddyg teulu neu'ch Ymgynghorydd Ysbyty ddangos pam y teimlant fod **amgylchiadau clinigol eithriadol** gennych. Gallai hyn fod yn anodd ei diffinio ar gyfer pob claf – deallwn hyn – felly rydym yn dilyn polisi'r GIG sy'n gosod yn glir iawn sut yr ydym yn asesu hyn a sut y gwneir ein penderfyniadau.

Byddem yn ymateb i chi fel arfer ymhen 10 niwrnod gwaith o dderbyn eich cais er mwyn i chi wybod beth fydd yn digwydd nesaf.

Weithiau bydd angen i ni ofyn am ragor o wybodaeth gan eich doctor a gofynnwn iddynt ddarparu hyn cyn gynted â phosib.

Sut y deuir i benderfyniad?

Os yw'r cais yn briodol a chyflwynwyd yr holl wybodaeth ofynnol, bydd panel arbennig sef y 'Panel IPFR' yn ystyried eich cais.

Mae'r Panel IPFR yn cwrdd bob pythefnos ac mae'n cynnwys cymysgedd o bobl gymwysedig clinigol ynghyd ag aelod lleyg nad yw'n gweithio gyda'r bwrdd iechyd.

Mae'r Panel IPFR yn ystyried pob cais yn unigol a chedwir yr holl wybodaeth yn gyfrinachol. Nid ydynt yn gweld unrhyw wybodaeth y byddai'n datgelu pwy yw'r claf.

Mae'r arbenigedd gan holl aelodau'r Panel i asesu'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan eich doctor ac i sicrhau eu bod yn dilyn proses deg a chyfiawn.

Maent yn dilyn rhestr wirio glir wrth wneud eu penderfyniadau ac nid ydynt yn ystyried amgylchiadau cymdeithasol y claf wrth benderfynu cymeradwyo'r cais ai peidio.

Eich hysbysu am y penderfyniad

Teimla doctoriaid y dylai trafodaethau am benderfyniadau'r Panel ddigwydd rhwng claf a'i ddoctor. Mae hyn er mwyn gallu esbonio'r penderfyniad ac i chi allu trafod y camau nesaf o ran eich gofal.

Bydd y doctor a gyflwynodd eich cais fel arfer yn gwybod penderfyniad y Panel ymhen 5 niwrnod gwaith o'r cyfarfod a gwyddant i gysylltu â chi i'w drafod.

Beth sy'n digwydd pan nad yw'r Panel yn cytuno i ariannu'r cais?

Os hoffech chi a'ch doctor i benderfyniad y Panel gael ei adolygu, dylech ein hysbysu o hyn ymhen 25 niwrnod gwaith o ddyddiad derbyn llythyr y penderfyniad. Mae copi o'r ffurflen gais am adolygiad gan eich doctor a bydd angen llenwi hon ar y cyd a'i hanfon atom.

Gellir gwneud cais am adolygiad o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig, o'r enw 'seiliau':

- rydych yn teimlo na wnaeth y Panel ddilyn y broses gytûn, gan ymddwyn yn annheg
- rydych yn teimlo bod y Panel wedi ystyried ffactorau amherthnasol neu heb ystyried yr holl ffactorau perthnasol oedd ar gael iddynt, gan ymddwyn yn afresymol
- rydych yn teimlo bod y Panel wedi rhagori ar ei rym, gan ymddwyn yn afresymol

Er mwyn sicrhau y dilynir proses deg, caiff pob adolygiad ei glywed gan Banel Adolygu gwahanol.

Os yw'r Panel Adolygu'n penderfynu bod seiliau dilys i'r adolygiad, bydd eich cais yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Panel IPFR i'w ailystyried.

Nodwch na fydd y Panel Adolygu'n ystyried dystiolaeth newydd. Os oes dystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg, dylai'ch doctor gyflwyno IPFR newydd.

Cwyno

Os ydych yn dal i fod yn anhapus yn dilyn penderfyniad yr adolygiad, mae hawl gennych i gyfeirio'r mater at Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae gwybodaeth bellach ar sut i wneud hyn ar gael ar eu gwefan www.ombudsman-wales.org.uk

Gwybodaeth bellach

Ar gais, mae mynediad gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda at gyfieithwyr all siarad ieithoedd eraill. Gall y daflen hon fod ar gael mewn ieithoedd eraill, print bras, Braille neu ar dâp sain. Cysylltwch â'r Adran Gorfforaethol ar 01437 771266.

Cysylltu â Rheolwr yr IPFR

Am wybodaeth gyffredinol ar gyflwyno IPFR, cysylltwch â:

Rheolwr yr IPFR
Pencadlys Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Llys Myrddin
Lôn Winch
Hwlfordd
Sir Benfro SA61 1SB

Ffôn: 01437 771220